

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd ac maent wedi dangos eu bwriad cadarn i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio fel bod cynhyrchwyr yn talu'r costau llawn sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r gwastraff maent yn ei gynhyrchu. Mae'r ymrwymadau hyn yn cynnwys y rhai a wnaed yn strategaeth Llywodraeth Cymru, *Mwy nag Ailgylchu: strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti*; yn *Resource and Waste Strategy for England 2018*; ym Maniffesto'r Ceidwadwyr 2019; yn strategaeth Llywodraeth yr Alban, *Making Things Last*, ac yng Nghynllun *Waste Management Plan 2019* Gogledd Iwerddon.

1.2 Mae Bil yr Amgylchedd yn cyflwyno pwerau i'w gwneud yn bosibl i gyflwyno cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. At hyn, er mwyn cydymffurfio â Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn parhau i drosi'r Gyfarwyddeb Gwastraff Deunydd Pacio, fel y'i diwygiwyd. Cafodd y Gyfarwyddeb ei diwygio'n fwyaf diweddar gan y Pecyn Economi Gylchol i leihau gwastraff, sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio.

1.3 Mae'r system o gyfrifoldeb cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio wedi bod ar waith yn y DU ers 1997, ac mae wedi helpu i gynyddu'r gwastraff deunydd pacio sy'n cael ei ailgylchu o 25% 20 mlynedd yn ôl, i 63.9% yn 2017. Dros y cyfnod hwn, rydym wedi rhagori ar bob un o'r targedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio a bennwyd ar ein cyfer ar lefel y DU a'r UE, a chadwyd y costau cydymffurfio roedd busnesau'n eu talu yn isel o gymharu â gwledydd yn Ewrop.

1.4 Fodd bynnag, yn yr un modd ag unrhyw system sydd dros 20 mlwydd oed, mae angen ei diwygio. Yn 2019, amlinellodd y llywodraethau<sup>1</sup> achos dros ddiwygiadau sylweddol i'r system bresennol yn y ddogfen ymgynghori *Reforming the UK Packaging Producer Responsibility System*. Roedd hyn yn cynnwys gwneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am y costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli deunydd pacio unwaith y mae'n troi'n wastraff, gan bennu targedau mwy uchelgeisiol i gynhyrchwyr a chyflwyno labelu clir a chyson i ddangos a oes modd ailgylchu deunydd. Roedd yn cydnabod bod yn rhaid i'r diwygiadau arwain at system cyfrifoldeb cynhyrchwyr mewn perthynas â deunydd pacio sy'n cael effaith gadarnhaol hirdymor, ac sy'n

---

<sup>1</sup>Oni nodir yn wahanol, mae "Llywodraeth" yn cyfeirio at Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

gweithio'n dda i bob rhanddeiliad, ac ar gyfer y DU yn ogystal â phob rhan o'r DU. O ystyried natur integredig y gadwyn gwerth deunydd pacio a bod llawer o weithgynhyrchwyr a manwerthwyr yn gweithredu ledled y DU, cafodd y cynigion eu seilio ar barhau â system DU-gyfan.

1.5 Cafwyd 679 o ymatebion unigol i'r ymgynghoriad a 34 o ymatebion ymgyrch. Roedd yr ymatebion hyn yn gefnogol iawn o'r canlyniadau a'r egwyddorion sy'n ategu'r diwygiadau, ac, at ei gilydd, yn cefnogi'r cynigion. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, amlinellodd y llywodraethau eu bwriad i ddatblygu'r cynigion polisi hyn, cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn 2023 a defnyddio pwerau deddfu sylfaenol ym Mil yr Amgylchedd i'w galluogi i roi'r diwygiadau ar waith.

1.6 Ers yr ymgynghoriad cyntaf hwn, craffwyd ar Fil yr Amgylchedd yn Nhŷ'r Cyffredin a chaiff ei gario drosodd i'r sesiwn seneddol nesaf, (pan gaiff y Cam Adrodd ei gwblhau yn Nhŷ'r Cyffredin). Rydym wedi cynnal adolygiad ychwanegol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi datblygu'r dystiolaeth ac wedi ymgynghori â rhanddeiliad er mwyn datblygu'r cynigion ymhellach. Mae'r gwaith hwn wedi galluogi'r llywodraethau i gadarnhau'r dull a ffefrir ganddynt ar gyfer llawer o elfennau allweddol y diwygiadau ac i geisio barn, drwy'r ymgynghoriad hwn, ar fanylion penodol y gwaith o roi'r dulliau a ffefrir ganddynt ar waith.

1.7 Ar gyfer rhai meysydd, mae'r llywodraethau'n ceisio sylwadau pellach ar opsiynau bras. Yn yr achosion hyn, bydd yn bwysig bod y llywodraethau'n ffurfio safbwynt clir yn fuan ar ôl y broses ymgynghori, er mwyn gallu canolbwyntio ar ddeddfu. O ganlyniad, byddwn yn mynd ati i ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliad yn y meysydd hyn yn ystod y broses ymgynghori er mwyn helpu i hwyluso consensws bras.

## ***Crynodeb o'r cynigion a'r buddiannau***

1.8 O ganlyniad i'r cynigion a nodir isod, a chan dybio y bydd cynigion ailgylchu cyson yn cael eu cyflwyno yn Lloegr, ynghyd â chynllun dychwelyd ernes 'hollgynhwysol', mae ein dadansoddiad yn awgrymu y bydd cyfanswm cyfraddau ailgylchu deunydd pacio y DU erbyn 2030 yn 78%, gyda'r gyfradd ailgylchu amcangyfrifedig ar gyfer pob deunydd yn rhagori ar y targedau a bennir yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyfraddau ailgylchu ar gyfer gwydr (96%), cardfwrdd (86%) a dur (93%) yn uchelgeisiol ac yn agos at yr uchafswm y mae'n debygol y gellid ei gyflawni. Mae'r cyfraddau ailgylchu amcangyfrifedig o 69% ar gyfer alwminiwm a 62% ar gyfer plastigau yn is, ond rydym yn disgwyl iddynt godi unwaith y bydd casglu ac ailgylchu deunydd pacio alwminiwm arall a ffilm blastig a phlastigau hyblyg wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad.

1.9 Rydym yn amcangyfrif y bydd y cynnydd hwn mewn ailgylchu deunydd pacio yn cynhyrchu 3.1 miliwn tonnell o fanteision carbon wedi'u masnachu, a 1.3 miliwn

tunnell o fanteision nad ydynt wedi'u masnachu dros y cyfnod arfarnu (2023–2032). Mae hyn yn gyfystyr â manteision i'r gymdeithas gwerth £412 miliwn<sup>2</sup>. Nid yw hyn yn cynnwys arbedion ychwanegol sy'n deillio o leihau'r defnydd o ddeunydd pacio gan nad yw'r arbedion hynny wedi'u meintioli ar y cam hwn.

1.10 O dan y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, bydd cynhyrchwyr deunydd pacio yn dod yn gyfrifol am y costau llawn sy'n gysylltiedig â rheoli'r deunydd pacio y maent yn ei gyflwyno i'r farchnad. Mae'r lywodraeth yn amcangyfrif y bydd eu costau oddeutu £2.7 biliwn yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf lawn.

1.11 Bydd trosglwyddo'r costau hyn, o bwrs y wlad a'r rhai sy'n gwaredu gwastraff deunydd pacio, yn gwneud i gynhyrchwyr gwestiynu a yw'r deunydd pacio y maent yn ei ddefnyddio yn angenrheidiol, a ellir ei leihau neu a ellir rhoi'r gorau i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cynnig cyflwyno rhwymedigaethau, o bosibl ar ffurf targedau aildefnyddio deunydd pacio o 2025, i ddarparu cymhelliant ychwanegol i leihau'r deunydd pacio a ddefnyddir ac annog cynhyrchwyr i ddefnyddio modelau aildefnyddio neu ail-lenwi. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynigion erbyn diwedd 2023, gan weithio gyda'r sector ar y manylion cyn hyn. Gan fod busnesau'n ystyried modelau o'r fath eisoes, bydd yr ymrwymiad hwn yn anfon neges glir iddynt fwrw ati'n gyflym â'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r modelau hyn cyn 2025.

1.12 Bydd ffioedd cynhyrchwyr yn amrywiol (wedi'u modiwlleiddio), gan ddarparu cymhelliant pellach i gyflawni canlyniadau'r cynllun, megis mwy o ailgylchu. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr sy'n defnyddio deunydd pacio na ellir ei ailgylchu (fel polystyren neu blastig du) dalu ffioedd uwch, a thrwy hynny eu cymell i ddefnyddio deunydd pacio y gellir ei ailgylchu. Caiff ffioedd hefyd eu modiwlleiddio er mwyn darparu cyllid a fydd yn helpu i dalu am gasgliadau ychwanegol ac uwchraddio'r seilwaith er mwyn ei gwneud yn bosibl i ailgylchu deunyddiau na ellir eu hailgylchu ar hyn o bryd, lle bydd cynhyrchwyr yn barod i fuddsoddi (e.e. ariannu casgliadau ffilmiau plastig a phlastigau hyblyg), os nad oes modd lleihau'r deunydd pacio, neu er mwyn cymell mwy o fusnesau i fabwysiadu modelau busnes a systemau aildefnyddio ac ail-lenwi.

1.13 Wrth ysgogi mwy o ailgylchu, mae'n bwysig na fydd ansawdd yn gostwng ond y bydd, i'r gwrthwyneb, yn gwella. Mae'r ymgynghoriad hwn felly yn cynnwys cynigion i gynnal a gwella ansawdd deunyddiau drwy gasglu a didoli, er mwyn

---

<sup>2</sup> Mae'r asesiad effaith ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn rhoi cyfrif am y gyfran o'r costau a'r buddiannau. Yn benodol, mae'n cynnwys effaith ffioedd wedi'u modiwlleiddio ar ddeunyddiau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, casglu ffilmiau plastig a phlastigau hyblyg a'r gofyniad i gymryd cwpanau papur yn ôl. Nid yw'n cynnwys y buddiannau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn ailgylchu deunyddiau o dan y cynllun dychwelyd ernes, ac, er ei fod yn cael ei ariannu gan gynhyrchwyr Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, nid yw'n cynnwys costau a buddiannau trefniadau cyson ar gyfer casglu deunyddiau pacio eraill fel potiau, tybiau a hambyrddau am fod y rhain wedi'u cyfrif yn yr asesiad effaith cysondeb.

sicrhau bod mwy o'r hyn a gaiff ei gasglu yn cael ei ailgylchu, gan gynnwys i greu deunydd pacio newydd, ac annog mwy o ailbrosesu domestig a lleihau'r deunydd pacio halogedig ac ansawdd isel a gaiff ei allforio i'w ailgylchu.

1.14 Er mwyn cefnogi defnyddwyr mewn cartrefi a busnesau ledled y wlad i wneud y penderfyniadau cywir am ailgylchu, bydd pob deunydd pacio wedi'i labelu mewn modd cyson i roi gwybod i ddefnyddwyr a ellir ei ailgylchu ai peidio. Bydd hyn yn lleihau dryswch ac yn ei gwneud yn haws inni gyd wneud y peth iawn. Er mwyn llywio'r ffioedd y bydd cynhyrchwyr deunydd pacio yn eu talu a sut y byddant yn labelu eu deunydd pacio, bydd angen i gynhyrchwyr hunanasesu eu deunydd pacio i bennu a oes modd ei ailgylchu ai peidio. Yn ogystal ag ystyried a ellir ei ailgylchu'n dechnegol, fel sy'n gallu digwydd ar hyn o bryd, bernir hyn hefyd gan ystyried a oes seilwaith ar waith i alluogi'r deunydd pacio i gael ei ailgylchu (h.y. systemau casglu a didoli cenedlaethol).

1.15 Fel rhan o'r taliadau costau net llawn, bydd cynhyrchwyr y deunyddiau pacio sy'n cael eu taflu fel sbwriel yn aml, fel deunydd pacio bwyd brys a chwpanau untro, yn gyfrifol am gostau rheoli'r deunyddiau hyn. Bydd hyn yn rhoi cymhelliant cryf i'r cynhyrchwyr hynny geisio atal sbwriel, a lle nad yw hyn yn bosibl, sicrhau y caiff ei reoli'n effeithiol drwy ddarparu biniau sbwriel a glanhau strydoedd. Yn ogystal, rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i'r rhai sy'n gwerthu cwpanau papur untro wedi'u llenwi ddarparu cyfleusterau gwaredu ar y safle ar gyfer cwpanau papur untro a sicrhau eu bod yn cael eu hailgylchu. Yn y tymor hwy, caiff targedau ailgylchu eu cyflwyno ar gyfer cardfwrdd wedi'i lamineiddio, a fydd yn helpu i gynyddu'r cwpanau untro a gaiff eu hailgylchu 'yn y fan a'r lle', mewn manau fel hybiau trafniadaeth, lle bo angen, er mwyn cyrraedd y targedau.


## ***Pryd y caiff ei roi ar waith***

1.16 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad diwethaf, nododd y Llywodraeth mai 2023 oedd y dyddiad targed ar gyfer rhoi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith, gan ymrwymo i sicrhau'r pwerau gofynnol ym Mil yr Amgylchedd. Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gwnaed llawer o waith i ddatblygu'r cynigon a amlinellir yn y ddogfen hon ymhellach ac i ddeall y camau sydd angen eu cymryd er mwyn rhoi'r cynigion diwygiedig ar waith. Rydym yn cydnabod bod yr amserlen yn uchelgeisiol, ond rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i roi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith ar gyfer deunydd pacio cyn gynted â phosibl ac yn cynnig ei gyflwyno fesul cam gan ddechrau yn 2023.

1.17 Rydym yn cynnig bod cam cyntaf Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cael ei sefydlu yn 2023, gan alluogi taliadau cychwynnol ar gyfer gwastraff deunydd pacio domestig i awdurdodau lleol o fis Hydref 2023. Bydd hyn yn dibynnu ar allu Gweinyddwr y Cynllun i weithredu a sefydlu'r systemau a'r prosesau angenrheidiol er mwyn dechrau ei gyflwyno. Ar yr amod bod y senedd yn cymeradwyo Bil yr

Amgylchedd, bydd y llywodraethau'n cynnal ymarfer caffael agored gan ddechrau tua diwedd 2021 gyda'r nod o benodi'r Gweinyddwr Cynllun llwyddiannus yn gynnar yn 2023. Byddai elfennau pellach Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, gan gynnwys modiwlleiddio ffioedd yn seiliedig ar y gallu i ailgylchu'r deunydd pacio, taliadau am reoli sbwriel a thaliadau i fusnesau am gostau rheoli gwastraff deunydd pacio, yn cael eu cyflwyno yn ystod Cam 2, o 2024 (gweler Ffigur 1).

1.18 Mae'r llywodraethau'n ceisio barn y gadwyn gwerth deunydd pacio ar ddichonoldeb y llinell amser hon ac ymarferoldeb y dull o gyflwyno'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr fesul cam gan ddechrau yn 2023. Os ystyrir ei bod yn ddymunol ac yn ddichonadwy i Weinyddwr y Cynllun weithredu yn 2023, byddai'r llywodraethau'n cyflwyno gofynion adrodd data newydd i sicrhau bod gan Weinyddwr y Cynllun ddata addas yn sail ar gyfer penderfyniadau gweithredol. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno drwy Offeryn Statudol ar wahân, a fyddai'n rhoi rhwymedigaethau adrodd data newydd ar gynhyrchwyr Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr i gasglu data ar ddeunydd pacio yn 2022.



Ffigur 1. Cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr fesul cam – llinell amser ddangosol

## Crynodeb o'r cynigion yn ôl adran

### Targedau

1.19 O dan Reoliadau Gwastraff Deunydd Pacio 2007, mae'n ofynnol i gynhyrchwyr dan rwymedigaeth fodloni targedau ailgylchu blynyddol, gyda Defra'n adrodd ar gyfraddau ailgylchu gwastraff deunydd pacio yn y DU bob blwyddyn. Yn y dyfodol, caiff targedau ailgylchu deunydd pacio eu gosod ar gyfer deunydd pacio dan rwymedigaethau'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, a gosodir targedau ar

wahân ar gyfer cynwysyddion diodydd o fewn cwmpas y cynlluniau dychwelyd ernes. Bydd y llywodraethau'n adrodd ar wahân ar gyfraddau ailgylchu deunydd pacio cyffredinol ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Bydd hyn yn adlewyrchu cyfanswm y deunydd pacio a gaiff ei ailgylchu, h.y. drwy Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a chynlluniau dychwelyd ernes.

1.20 Mae'r ymgynghoriad yn cynnig targedau ailgylchu gofynnol ar gyfer y chwe deunydd pacio. Mae'r rhain yn cyfateb i gyfradd ailgylchu gyffredinol ar gyfer deunydd pacio Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr o 73% erbyn 2030. Mae hefyd yn cynnig cyflwyno targed ailgylchu ar gyfer deunydd pacio cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffeibr, fel pecynnau bwyd a diod a chwpanau papur untro.

1.21 Mae'r ymgynghoriad yn dangos ein bwriad i ystyried a oes angen targedau ailgylchu 'dolen gaeedig' ar gyfer deunyddiau eraill yn ogystal â gwydr, er mwyn ysgogi ansawdd a marchnadoedd terfynol, a chyflwyno rhwymedigaethau, ar ffurf targedau o bosibl, i gynyddu'r defnydd o ddeunydd pacio y gellir ei aildefnyddio/ail-lenwi. Rydym yn ceisio barn drwy'r ymgynghoriad ar ddiffinio aildefnyddio/deunydd y gellir ei ail-lenwi, ac ar ba ffurf y gellid llunio'r targedau neu rwymedigaethau. Rydym yn cynnig cyflwyno'r cynigion ar gyfer aildefnyddio yn 2023, gan gyflwyno rhwymedigaethau o 2025.

### **Costau net llawn rheoli gwastraff deunydd pacio**

1.22 Yn dilyn cefnogaeth gref yn ymgynghoriad 2019, gwaith dilynol i ddatblygu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r llywodraethau'n bwriadu bwrw ymlaen â chwmpas eang costau net llawn rheoli gwastraff deunydd pacio fel y'i nodir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys:

- Casglu, didoli ac ailgylchu gwastraff deunydd pacio o gartrefi a busnesau;
- Casglu a gwaredu deunydd pacio yn y llif gwastraff gweddilliol o gartrefi yn unig;
- Costau rheoli sbwriel, gan gynnwys biniau a sbwriel ar y llawr;

1.23 Mae ein hamcangyfrifon diwygiedig yn awgrymu y bydd y costau rheoli gwastraff deunydd pacio blynyddol y bydd yn ofynnol i gynhyrchwyr eu talu oddeutu £2.7bn yn y flwyddyn weithredu lawn gyntaf, gyda £1bn o hyn yn gysylltiedig â gwastraff deunydd pacio a gesglir o gartrefi, £1.5bn ar gyfer gwastraff deunydd pacio a gesglir o fusnesau, a £200 miliwn ar gyfer rheoli sbwriel deunydd pacio mewn biniau ac ar y llawr.<sup>3</sup>

---

<sup>3</sup> Mae'r costau amcangyfrifedig ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio a sbwriel busnesau yn uwch na'r hyn a ddyfynnir yn yr Asesiad Effaith ac maent yn adlewyrchu dadansoddiad wedi'i ddiweddarau nad oedd ar gael ar

1.24 Wrth gadarnhau'r dull gweithredu hwn, mae'r llywodraethau yn cydnabod nad yw'n gost newydd ar yr economi, ond yn drosglwyddiad o un rhan i ran arall. Bydd hyn yn cymell cynhyrchwyr i leihau eu defnydd o ddeunydd pacio, mabwysiadu deunydd pacio y gellir ei aildefnyddio lle nad yw ei leihau'n ddichonadwy, neu ddefnyddio deunydd pacio y gellir ei ailgylchu'n hawdd, ac ariannu'r gwaith o ailgylchu a rheoli pecynnau untro lle na ellir eu hosgoi.

### **Cynhyrchwyr dan rwymedigaeth**

1.25 Yn y system bresennol, caiff y rhwymedigaeth ar gyfer un eitem o ddeunydd pacio ei rhannu ar draws llawer o fusnesau. Ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, mae'r llywodraethau'n cynnig cyflwyno un pwynt rhwymedigaeth (h.y. mae un cynhyrchwr yn gyfrifol am gost rheoli darn o ddeunydd pacio). Bydd hyn yn rhoi'r rhwymedigaethau ar y rhai sydd yn y sefyllfa orau i leihau'r deunydd pacio a ddefnyddir ganddynt a/neu gynyddu'r deunydd pacio y gellir ei ailgylchu a ddefnyddir ganddynt. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi manylion y rhwymedigaethau a gynigir ar gyfer adrodd a thalu'r costau ar gyfer y gwahanol fathau o gynhyrchwr dan rwymedigaeth.

1.26 Rydym hefyd wedi ystyried opsiynau ar gyfer dod â deunydd pacio a drafodir gan fusnesau bach o fewn cwmpas y system Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Mae hyn yn cynnwys gostwng y trothwy de-minimis presennol, ac, ar gyfer deunydd pacio heb ei lenwi a gaiff ei werthu i fusnesau bach o dan de-minimis is, rhoi rhwymedigaeth ar y busnes sy'n gwerthu'r deunydd pacio heb ei lenwi iddynt (e.e. cyfanwerthwyr neu weithgynhyrchwyr sy'n gwerthu'n uniongyrchol i'r busnesau hyn). Rydym hefyd yn cynnig rhoi rhwymedigaeth ar Farchnadoedd Ar-lein ar gyfer unrhyw ddeunydd pacio wedi'i lenwi a gaiff ei fewnforio drwy eu plattform a'i werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid yn y DU, gan eu cleientiaid.

### **Cwpanau tafladwy**

1.27 Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a ddylid cyflwyno gofyniad gorfodol ar fusnesau sy'n gwerthu cwpanau papur tafladwy i gymryd cwpanau'n ôl a'u hailgylchu, i sicrhau bod trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer casglu cwpanau a ddefnyddiwyd (naill ai wedi'u defnyddio ar y safle neu wedi'u cludo oddi yno). Gellid gwneud hyn drwy bwyntiau casglu ar y safle neu o flaen y siop a byddai'n ymestyn i dderbyn pob cwpan papur tafladwy yn y pwyntiau casglu hyn, ni waeth pa frand neu o ble y cafodd y ddiod ei phrynu.

### **Ffioedd wedi'u Modiwleiddio**

---

adeg drafftio'r Asesiad Effaith. Gan fod y costau yn trosglwyddo o un rhan o'r economi i ran arall, nid ydynt yn effeithio ar y costau a'r buddiannau net i'r economi nac i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

1.28 Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid amrywio'r ffioedd a godir ar gynhyrchwyr i dalu costau gwaredu eu deunydd pacio er mwyn adlewyrchu meini prawf megis pa mor hawdd ydyw i'w ailgylchu. Er enghraifft, bydd cynhyrchwyr y mae eu deunydd pacio yn cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau'r cynllun (e.e. hawdd ei ailgylchu) yn talu cyfraddau ffioedd is, tra bydd cyfraddau ffioedd ar gyfer deunydd pacio nad yw'n cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau'r cynllun yn uwch (e.e. deunydd pacio na ellir ei ailgylchu). Mae'r ymgynghoriad yn nodi fframwaith eang y gallai'r system hon weithredu o'i fewn ac yn cynnig y dylai gael ei weinyddu gan Weinyddwr Cynllun.

## **Labelu**

1.29 Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid cyflwyno gofyniad i roi labelu ailgylchu gorfodol ar ddeunydd pacio cyn gynted ag y bydd hynny'n ddichonadwy ac erbyn diwedd 2026/27 fan bellaf, gyda disgwyliad y caiff trefniadau labelu eu cyflwyno ar gyfer gwahanol fathau o ddeunydd pacio yn unol â'r gofynion ar gyfer ei gasglu ar wahân gan awdurdodau lleol. Er mwyn rhoi eglurder i ddefnyddwyr am yr hyn y gallant ac na allant ei ailgylchu, cynigir y dylai'r gofynion eang ar gyfer labelu gael eu pennu mewn deddfwriaeth, gan gynnwys gofyniad i ddefnyddio label a gymeradwyir gan y llywodraethau. Byddai hyn yn sicrhau neges gyson i ddefnyddwyr ar bob deunydd pacio, ac ar yr un pryd, yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i gynhyrchwyr o ran sut y byddant yn cydymffurfio.

## **Ffilm blastig a deunydd pacio hyblyg**

1.30 Ffilm blastig a deunydd pacio hyblyg fel bagiau siopa untro, bagiau bara a pheccynau melysion yw traean o'r 2.4mt o ddeunydd pacio plastig a roddir ar y farchnad bob blwyddyn yn y DU. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach a gaiff ei hailgylchu, oherwydd heriau sy'n gysylltiedig â chasglu, didoli ac ailgylchu'r deunydd hwn yn ogystal â'r marchnadoedd terfynol. Rydym am i hyn newid ac iddi ddod yn gyffredin i'r deunydd hwn gael ei ailgylchu. Er bod angen amser i fynd i'r afael â'r heriau, mae'r llywodraethau'n cydnabod bod angen iddynt roi arwydd clir drwy'r fframwaith polisi er mwyn helpu i ysgogi buddsoddiadau mewn seilwaith didoli ac ailbrosesu. Rydym yn cynnig felly y dylid ei gwneud yn ofynnol i ffilmiau plastig a phlastigau hyblyg gael eu casglu i'w hailgylchu cyn gynted ag sy'n ymarferol, ac mai cynhyrchwyr ddylai dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni hyn. Tybir y bydd hyn yn bosibl erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/27 ond rydym yn ceisio barn ar hyn drwy'r ymgynghoriad hwn.

## **Deunydd pacio plastig bioddiraddadwy, bioseilledig, ac y gellir ei gompostio**

1.31 Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i fonitro datblygiadau ym maes plastigau bioddiraddadwy lle y gallent arwain at y canlyniad amgylcheddol ac economaidd gorau. Er enghraifft, drwy Ymchwil ac Arloesi'r DU a sianelau eraill, mae DEFRA wedi cefnogi a bydd yn parhau i gefnogi ymchwil ac



arloesi ym maes plastigau. Bydd polisïau'r llywodraethau'n ystyried manteision plastigau bioddiraddadwy mewn sefyllfaoedd lle nad ydynt yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ar dargedau sero-net (megis drwy dadelfennu ac allyrru nwyon tŷ gwydr), y pridd a'r cefnfor (megis o ficroblastigau), a nodau'r system ailgylchu neu'r economi gylchol ehangach. Ar hyn o bryd mae heriau yn gysylltiedig â defnyddio a rheoli deunydd pacio bioddiraddadwy a deunydd pacio y gellir ei gompostio. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw rhai o'r mathau hyn o ddeunyddiau yn bioddiraddio'n llawn yn yr amgylchedd agored (fel mewn priddoedd neu yn y môr), gan adael olion o ficroplastigau a all fod yn niweidiol. Mae angen i rai gael triniaeth benodol ar ddiwedd eu hoes. Nifer cyfyngedig o gyfleusterau compostio neu dreulio anaerobig diwydiannol yn y DU sy'n derbyn y deunyddiau hyn ac ni chânt eu casglu'n eang i'w compostio neu eu cynnwys mewn gweddillion treuliad anaerobig. Lle caiff y deunydd ei dderbyn, nid yw bob amser yn bioddiraddio'n llawn. Yn ogystal, gall ddrysu defnyddwyr am ei bod yn hawdd ei ddrysu â phlastig confensiynol, gan halogi ac amharu ar y broses o'i ailgylchu. Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu felly, hyd nes y gellir gwella'r dystiolaeth, y casgliadau a'r seilwaith ar gyfer y deunydd pacio hwn, ei bod yn annhebygol y caiff ei ystyried yn ailgylchadwy o dan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio ac felly y bydd yn destun ffi uwch na deunydd pacio sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau'r cynllun.

### **Talu am reoli gwastraff deunydd pacio gan gartrefi**

1.32 Mae'r ymgynghoriad yn pennu egwyddorion bras fel sail i roi systemau talu ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys cwmpas 'costau angenrheidiol' ac y dylai'r costau a delir gan gynhyrchwyr fod ar gyfer darparu gwasanaethau 'effeithlon ac effeithiol'. Mae'n nodi sut y gall y llywodraethau ddisgwyl i Weinyddwr y Cynllun weithredu mewn perthynas â thaliadau i awdurdodau lleol. Mae'n cynnig y dylai'r taliadau fod yn seiliedig ar dunelli ac ansawdd y gwastraff deunydd pacio a gesglir ac a ailgylchir, gyda'r gofynion hyn yn cael eu cyflwyno fesul cam, a Gweinyddwr y Cynllun yn cael ei annog i gefnogi awdurdodau lleol i wella a chyrraedd meincnodau perfformiad er mwyn cael eu taliadau llawn.

### **Talu am reoli gwastraff deunydd pacio gan fusnesau**

1.33 Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar y tri dull gwahanol o hwyluso taliadau gan gynhyrchwyr deunydd pacio i fusnesau sy'n cynhyrchu gwastraff deunydd pacio, gan gynnwys deunydd pacio cludo a deunydd pacio diwydiannol lle na all y cynhyrchwr brofi ei fod wedi rheoli'r deunydd pacio hwn ei hun. Mae dau o'r dulliau hyn yn rhagweld rôl glir ar gyfer cynlluniau cydymffurfio, tra bod y llall yn rhagweld mai Gweinyddwr y Cynllun fydd yn gwbl gyfrifol am daliadau, ac felly am gyflawni targedau.

### **Talu am reoli gwastraff deunydd pacio a waredir drwy'r llif sbwriel**

1.34 Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai cynhyrchwyr eitemau o ddeunydd pacio a gaiff eu taflu fel sbwriel yn aml gael eu gwneud yn gyfrifol am y costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o'u rheoli, a hynny fel sbwriel mewn biniau a sbwriel ar y llawr. Mae hyn yn cynnwys costau yr eir iddynt gan awdurdodau lleol, cyrff dyletswydd eraill, awdurdodau sbwriel ac ymgyrmerwyr statudol. Mae hefyd yn cynnwys cyfraniad at gostau yr eir iddynt gan elusennau, sefydliadau nid er elw a chyrff cynrychioliadol ar gyfer gweithgareddau atal ac addysg, ymgyrchoedd codi sbwriel, a darparu biniau ar dir y gall y cyhoedd ei ddefnyddio am ddim. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig y dylai Gweinyddwr y Cynllun gyflwyno trefniadau monitro i ganiatáu i daliadau fod yn gysylltiedig â chanlyniadau sbwriel (megis sgoriau glendid) cyn gynted ag sy'n ddichonadwy.

### **Gweinyddu'r Cynllun a Threfniadau Llywodraethu**

1.35 Bydd angen i'r trefniadau gweinyddu a llywodraethu ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr helpu cynhyrchwyr i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau. Bydd angen iddynt fod yn gadarn a bydd angen i lifau ariannol a chanlyniadau fod yn dryloyw, ond gan gynnig hyblygrwydd ar yr un pryd i gynhyrchwyr benderfynu ar y ffordd orau o fodloni eu rhwymedigaethau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ddau ddull gweithredu bras:

- *Un gweinyddwr / sefydliad rheoli:* yn gyfrifol am weinyddu a rheoli'r broses o roi'r gofynion costau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff deunydd pacio ('costau gwaredu') a sicrhau cydymffurfiaeth cynhyrchwyr â thargedau ailgylchu gwastraff deunydd pacio ar waith.
- *Sawl cynllun cydymffurfio gyda swyddogaethau penodol wedi'u cyflawni gan Weinyddwr Cynllun:* byddai Gweinyddwr Cynllun yn ymgymryd â swyddogaethau sy'n well eu darparu ar lefel y DU gyfan, fel datblygu'r dull o benderfynu ar gostau rheoli gwastraff deunydd pacio ar gyfer gwastraff cartrefi, pennu'r dull modiwlleiddio ffioedd a gweinyddu taliadau i awdurdodau lleol; gyda chynlluniau cydymffurfio yn bennaf cyfrifol am reoli cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau mewn perthynas â gwastraff deunydd pacio nad yw'n gysylltiedig â chartrefi.

1.36 Mae llawer o enghreifftiau o bob un o'r dulliau hyn yn gweithredu'n llwyddiannus yn rhyngwladol, gyda Gweinyddwr Cynllun sengl yn cynnig mwy o oruchwyliaeth strategol a chynlluniau cydymffurfio yn cynnig mwy o ddewis i gynhyrchwyr. Mae cymariaethau rhyngwladol yn awgrymu bod manteision pob un yn eithaf cyfartal ac yn dibynnu'n rhannol ar y cyd-destun y maent yn gweithredu o'i fewn. Mae'r llywodraethau o'r farn mai un sefydliad neu Weinyddwr Cynllun fyddai yn y sefyllfa orau i reoli'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n rhyngweithio ag awdurdodau lleol.

### **Ailbroseswyr ac Allforion**

1.37 Bydd mesurau a gyflwynir drwy Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn gwella ansawdd y gwastraff deunydd pacio i'w ailgylchu, p'un a yw'r deunydd hwnnw'n cael ei ailgylchu yn y DU neu'n cael ei allforio. Mae cynigion ychwanegol i ymgynghori arnynt yn cynnwys gofynion cofrestru ac adrodd newydd ar gyfer ailbroseswyr ac allforwyr gwastraff deunydd pacio. Mae diwygiadau i Gonfensiwn Basel a roddwyd ar waith yn y DU o fis Ionawr 2021 wedi atgyfnerthu rheolaethau ar allforio plastigau gwastraff. Mae'r llywodraethau hefyd wedi ymrwmo i adolygu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer yr holl wastraff a allforir ac i wahardd allforio plastigau gwastraff i wledydd nad ydynt yn aelodau o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Bydd pwerau ym Mil yr Amgylchedd yn ein galluogi i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

### **Monitro a Gorfodi**

1.38 Bydd pwerau monitro a gorfodi effeithiol a chymesur sy'n ysgogi lefelau uchel o gydymffurfiaeth ac yn atal twyll yn cael eu pennu mewn rheoliadau, yng nghydestun fframweithiau gorfodi pob gweinyddiaeth. Mae'r ymgynghoriad yn nodi rhwymedigaethau system a gofynion cydymffurfio'r system. Mae'n cynnig mai'r rheoleiddwyr amgylcheddol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru fydd y prif reoleiddwyr ac mai nhw fydd â'r pwerau i fonitro, archwilio a defnyddio cosbau sifil a throeddol i ysgogi cydymffurfiaeth a mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae hefyd yn cynnig y dylai ffioedd a godir gan reoleiddwyr adlewyrchu'r costau yr eir iddynt wrth gyflawni eu gweithgareddau monitro cydymffurfiaeth yn well, ac y dylai lefel gweithgarwch o'r fath ystyried y cynnydd yn y llifau ariannol yn y system.

### **Dyluniad digidol**

Bydd angen seilwaith digidol i ategu'r broses o gasglu, trin a defnyddio'r data y bydd eu hangen ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Mae'n debygol y bydd angen y seilwaith hwn er mwyn hwyluso prosesau cofrestru, cefnogi'r gwaith o weinyddu'r fframwaith taliadau a'i gwneud yn bosibl i gyflwyno tystiolaeth am ddeunydd pacio a roddwyd ar y farchnad a'i hynt drwy'r system rheoli gwastraff, ynghyd â chostau cysylltiedig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig rhannu cyfrifoldebau rhwng y llywodraethau a Gweinyddwr y Cynllun o ran pwy sy'n gyfrifol am sefydlu a gweithredu rhai o elfennau allweddol y seilwaith digidol hwn.